**CYNLLUN ADFER NATUR**
**Cyfoeth Naturiol Cymru – Ymateb i'r Ymgynghoriad**
**3ydd Rhagfyr 2014**

## Cyflwyniad

Diolch i chi am ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar ddrafft Cynllun Adfer Natur. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn a llawer o'r cynigion sydd ynddo. Rydym yn falch gweld bod llawer o'n sylwadau blaenorol yn cael eu hadlewyrchu yn y fersiwn gyfredol. Fodd bynnag, mae gennym nifer o sylwadau a gobeithiwn y byddan nhw'n helpu i wella ffocws, manylder a'r hyn y gellir ei gyflawni gan y Cynllun.

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod yr amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella'n gynaliadwy ac yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, sefydliadau anllywodraethol, awdurdodau lleol a chymunedau er mwyn helpu cyflawni polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn defnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem tuag at hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn integredig sy'n cyflawni buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Gweler isod y negeseuon allweddol sy'n cael eu cynnwys yn ein hymateb.
Mae ein hymateb i'r cwestiynau penodol wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1.
Mae Atodiad 2 yn cynnwys rhai sylwadau penodol ar y testun sydd oddi mewn i'r cynllun.

## Y Negeseuon Allweddol:

1. Mae'r ddogfen ymgynghori yn darllen fel Strategaeth Adfer Natur ac nid Cynllun: mae'n amlinellu cyfeiriad strategol a chamau gweithredu yn hytrach na chynllun gweithredu manwl. Fel y cyfryw, mae angen iddo ddangos y ffordd i'r rhaglen ddeddfwriaethol sy'n ymddangos a mecanweithiau cyflawni a chyllid eraill yn glir i sicrhau ei lwyddiant.

2. **Integreiddio**

   Mae bioamrywiaeth yn ategu amgylchedd iach, gwydn ac mae'n cael ei heffeithio gan amrediad cymhleth o faterion. Mae integreiddio polisïau yn hanfodol er mwyn gwrthdroi colli bioamrywiaeth a chyflawni gwasanaethau ecosystemau, ond mae hyn yn ogystal yn her allweddol. Dylai'r Cynllun Adfer Natur fod y strategaeth sy'n amlinellu sut y bydd Cymru yn ymdrin â'r her hon o integreiddio ar draws yr amrediad o fecanweithiau cyflawni posibl.

   Mae'n bwysig amlinellu lle mae cynlluniau fel hyn yn yr hierarchaeth strategaeth a chyflawni er mwyn sicrhau agwedd integredig tuag at Reoli Adnoddau Naturiol.

   Bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Biliau'r Amgylchedd a Chynllunio a'r Cynllun Morol Cenedlaethol i gyd yn cael swyddogaeth sylweddol mewn gwella integreiddio. Ni ddylai'r Cynllun Adfer Natur

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

redeg yn gyfochrog â'r prosesau hyn, ond yn lle hynny dylai geisio dylanwadu a gweithio drwy'r holl feysydd polisi a mecanweithiau cyflawni perthnasol. Dylai mesurau priodol sydd wedi cael eu datblygu i adrodd ar y Cynllun Adfer Natur gael eu mabwysiadu i mewn i bolisïau eraill a'u hadrodd fel rhan o Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (ASAN). Yn y ffordd hon, mae adfer natur yn rhan integrol o flaenoriaethau polisïau cenedlaethol ar reoli adnoddau naturiol yn integredig.

3. **Amserlen**
Mae'r Cynllun Adfer Natur yn amlinellu'r fframwaith cyflawni strategol hyd at 2020. Yn ogystal, dylai gynnwys cenhadaeth neu weledigaeth a chylch adolygu tymor hirach y tu hwnt i 2020. Mae gan fframwaith deddfwriaethol Cymru sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd amserlen hirach ac ni fydd y mecanweithiau allweddol yn eu lle i gyflawni am rhai blynyddoedd. Felly, mae'n bwysig bod y Cynllun Adfer Natur yn glir ynghylch sut y bydd yn cyflawni gwelliannau ar gyfer bioamrywiaeth ar lawr gwlad yn y cyfamser, er mwyn gwneud cynnydd gwirioneddol, mesuradwy tuag at nodau ac ymrwymiadau ehangach yr UE a Byd-eang.

4. **Perchnogaeth eang**
Mae angen i amrediad o randdeiliaid ac Adrannau o'r Llywodraeth fod ynghlwm yn weithredol wrth ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Adfer Natur er mwyn elwa ar gyfleoedd drwy gyflawni gan eraill. Bydd hyn yn darparu'r cymhelliad ar gyfer rhanddeiliaid newydd a'r rhai presennol, ac yn ymgysylltu â'r amrediad llawn o benderfynwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus ar lefel leol a lefel Cymru. Mae hyn yn alinio'n dda gyda gweithredu cynllunio a rheoli adnoddau naturiol drwy ddefnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem. Dylid gosod mecanweithiau ar gyfer cyflawni hyn.

5. **Adnoddau**
Bydd cyflawni llwyddiannus yn dibynnu ar fwyhau cyfleoedd gan Lywodraeth Cymru ar gydweithio a chyllido ar draws Adrannau ac ar ei allu i sicrhau buddion bioamrywiaeth o amrediad o gyllid Ewropeaidd. Mae pob cam gweithredu strategol angen nodi adnoddau yn glir er mwyn cefnogi ei gyflawni, a chysylltu i gyfres o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar y cyd sy'n cael eu hadlewyrchu yn y polisïau a chynlluniau presennol a'r rhai newydd. Dylid cefnogi cyflawni'r rhain drwy bartneriaethau diogel a bywiog drwy'r sectorau gwirfoddol/trydydd, cyhoeddus a phreifat.

6. **Cyflawni ar gyfer rhywogaethau**
Mae angen i'r Cynllun Adfer Natur gydnabod ac adlewyrchu anghenion rheoli sy'n darparu camau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer y rhywogaethau mwyaf bregus, yn arbennig felly, rhywogaethau Atodiad II N2K.

7. **Rheoli tir/dŵr yn gynaliadwy**

Mae'r Cynllun Adfer Natur presennol yn darparu'r cyfle i sicrhau rheoli tir a dŵr yn gynaliadwy drwy ymgysylltu'n weithredol â rheolwyr a pherchnogion tir/dŵr. Er mwyn ymdrin â dirywiad mewn bioamrywiaeth yn effeithiol, mae'n hollol hanfodol i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid hyn i'w galluogi i weithio'n unigol ac ar y cyd wrth barhau i gynnal busnesau hyfyw mewn cymunedau gwledig. Er mwyn cefnogi camau gweithredu priodol yn y lleoedd cywir, mae angen mwy o eglurhad ar sut y darperir gwybodaeth i'r mecanweithiau presennol a'r dyfodol fel Glastir gan y Cynllun Adfer Natur ac yn ogystal drwy dystiolaeth a chyngor ar sail ardal yn y dyfodol.

**8. Cymell Busnesau**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i adolygu sut yr ydym ni, Llywodraeth Cymru, ac eraill yn gweithio ochr yn ochr â busnesau i adolygu offerynnau a fydd yn annog perchnogion a rheolwyr tir/dŵr a busnesau eraill i ymateb yn gadarnhaol i gamau gweithredu sy'n cefnogi adfer ecosystemau a bioamrywiaeth. Byddwn angen gweithio gyda'n gilydd i annog ymgysylltiad wrth gyflawni drwy gyngor sydd wedi'i gysylltu â gwell rheoleiddio a gweithredu rheoleiddio'n well. Yn ogystal, rydym yn cynghori bod Cymru yn dangos sut y gall amgylchedd sy'n adfer greu llwyfan ar gyfer datblygu cynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd yn fwy effeithiol.

**9. Y Nodau**

Wrth gydnabod yr angen i gadw'r rhain yn syml ac wedi'i ffocysu, mae'n rhaid iddyn nhw fod yn ystyrlon i bawb sydd ynghlwm yn ogystal, ac yn fesuradwy ac wedi'u cyfyngu gan amser.

**10. Tystiolaeth a Gwybodaeth**

Rydym yn croesawu cynnwys cam gweithredu penodol ar gyfer gwella'r sylfaen dystiolaeth. Mae datblygu sylfaen dystiolaeth strategol i ategu'r gwaith hwn yn flaenoriaeth uchel. Mae'r gallu presennol i fonitro ac adrodd ar rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ASAN ac ymrwymiadau statudol eraill yn gyfyngedig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydnabod yn ffurfiol pwysigrwydd o sicrhau gwell sylfaen dystiolaeth ar gyfer lleoli adnoddau naturiol ac mae wedi cynhyrchu ei Strategaeth Dystiolaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn ogystal bod bwlch rhwng disgwyliadau mwy ac adnoddau sy'n lleihau. Byddai'n ddefnyddiol ystyried swyddogaethau a chyfrifoldebau mwy penodol yn y maes hwn, yn ogystal â chwilio am gyfleoedd i gael tystiolaeth o ffynonellau torfol neu wyddor dinasyddion.

**11. Gallu**

Er mwyn cyflawni gofynion y Cynllun Adfer Natur, bydd angen defnyddio'r sgiliau gwybodaeth a'r adnoddau presennol yn fwy effeithiol. Gall fwy o allu ddod wrth newid ffyrdd o weithio yn ogystal â chynyddu buddsoddiad. Mae'r awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y sector amaethyddol, sectorau anllywodraethol eraill ac eraill eisoes yn ail-ganolbwyntio eu gweithgareddau wrth ymateb i bolisïau

rheoli adnoddau naturiol. Yn ogystal, gall rhanddeiliaid newydd gynyddu'r gallu i gyflawni.

12. **Ymgysylltu â'r cyhoedd**
Mae sut yr ydym yn ymgysylltu â phobl mewn sectorau gwahanol o gymdeithas yn gofyn am nod gyda thargedau mesuradwy. Gellir dadlau mai hwn yw'r her fwyaf, oherwydd heb gefnogaeth y cyhoedd ac ewyllys gwleidyddol yr ydym yn annhebygol o gyflawni'r nodau eraill. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â gwella iechyd a lles, gwasanaethau diwylliannol a gwerthoedd cymdeithasol. Dylai gael ei gefnogi gan y sector addysg drwy ddatblygiadau cwricwlaidd a'i integreiddio i ddysgu gydol oes a rhaglenni datblygu proffesiynol drwy'r sectorau.

13. **Mwyhau cyfleoedd ar gyfer cyllid**
Mae gan ffrydiau cyllido, yn arbennig felly, cyllid Ewropeaidd (UE), ond yn ogystal yn cynnwys eraill fel cronfeydd treth agregau/gwastraff, y potensial i fwyhau buddion o gyllid cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn natur.

    Yn ogystal, bydd angen mwy o ymdrech i nodi offerynnau ariannol a chyfleoedd marchnata newydd. Mae prosiect N2K LIFE wedi rhoi contract i archwilio cyfleoedd o'r fath. Bydd y contract yn nodi ac yn arfarnu mecanweithiau cyllido presennol a phosibl ar gyfer N2K yng Nghymru.

14. **Strategaeth Amgylcheddol Cymru** Mae gofyn am eglurder ar ddyfodol yr ymrwymiadau a gafodd eu gwneud yn Strategaeth Amgylcheddol Cymru.

15. **Effaith Cymru yn fyd-eang**
Mae hwn yn ddeublyg:
    - Effaith penderfyniadau a chamau gweithredu a gymerwyd yng Nghymru ar fioamrywiaeth fyd-eang. Datganodd adroddiad diweddar y *Living Planet* bod meintiau poblogaeth rhywogaethau asgwrn cefn wedi syrthio 52% ar gyfartaledd yn ystod y pedwar degawd diwethaf.[1] Mae gan bob gwlad gyfrifoldeb i leihau eu heffeithiau byd-eang a dylai'r cynllun hwn amlinellu sut y bydd Cymru yn gwneud hyn.
    - Mae Cymru yn cefnogi cynefinoedd ymylon gwasgariad sy'n arwyddocaol mewn cyd-destun Ewropeaidd a Byd-eang, fel coetiroedd derw'r Iwerydd, glaswelltiroedd corsiog cyfoethog eu rhywogaethau, gorgors, rhostir corlwyn ac enghreifftiau mwyaf deheuol y DU o gynefinoedd mynyddig.

[1] WWF (2014) The Living Planet Report 2014 – Species and Spaces, People and Places

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Atodiad 1 – Cwestiynau ar yr Ymgynghoriad

**C1. A ydych chi'n cytuno â ffocws yr uchelgais i ymdrin â gwydnwch sylfaenol ein hecosystemau ac adnabod a chipio buddion i'r gymdeithas? Os nad ydych, beth arall sydd angen i ni ei ystyried?**
Mae'r uchelgais i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yn cael ei groesawu ond dylai gael amserlen. A yw hyn am gael ei gyflawni erbyn 2020 neu a yw am dymor hirach? Dylai gynnwys rheoli ac adfer gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau cyn belled ag y mae'n ddichonadwy, ac wedi'i ategu'n ogystal gan ymrwymiad i *werthfawrogi bioamrywiaeth (nid yn economaidd yn unig) a hwyluso/annog pob sector o'r llywodraeth a'r gymdeithas i weithredu.* Bydd y ffocws ar reoli adnoddau naturiol yn cyflawni buddion os yw bioamrywiaeth wedi'i ymwreiddio'n gywir yn ei bolisïau, gwneud penderfyniadau a mecanweithiau cyllid. Fodd bynnag, bydd angen offerynnau cyflawni eraill i ymdrin â phwysau cymhleth a chynyddol sy'n achosi dirywiad mewn bioamrywiaeth yn yr amgylchedd tirol, dŵr croyw a morol.

**C2. A yw'r datganiad uchelgais yn cipio'r dull newydd hwn yn llawn? Beth a ellir ei ychwanegu?**
Mae'r Cynllun Adfer Natur angen sefydlu fframwaith polisi synhwyrol ag adnoddau penodol ar gyfer adfer rhywogaethau a chynefinoedd yng Nghymru a datgan yn glir sut fydd datblygu offerynnau deddfwriaethol a pholisi yng Nghymru yn cyfrannu at gyflawni. Mae gan gyfeirio'n ôl at y llywodraethu a amlinellwyd ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y potensial i sicrhau cyflawni ar lefel leol drwy sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried yn gywir mewn cynlluniau Llesiant lleol. Mae'n bwysig bod y rhai hynny sy'n cyfeirio at y Cynllun Adfer Natur yn deall (a) bod cadwraeth rhywogaethau a chynefinoedd yn rhan o'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem a (b) eu swyddogaeth eu hunain wrth gyflawni adfer natur. Gallai'r uchelgais a'r nodau gael eu gwella er mwyn hyrwyddo'r ddealltwriaeth hon.

**C3. A yw ein nodau'r rhai cywir? Beth a ellir ei ychwanegu?**
Mae'r Cynllun Adfer Natur angen amlinellu'r nodau uniongyrchol y bydd Cymru yn eu cyflawni mewn ymateb i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CAF): Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth[2] erbyn 2020. Dylai geiriad y nodau fod yn ystyrlon, yn fesuradwy ac wedi'i gyfyngu i amser. Yn ogystal, mae angen iddo amlinellu ei gylch adolygu/adrodd a gweledigaeth am y tymor hirach.

Mae pob nod angen nifer o gerrig milltir neu dargedau mesuradwy (wedi'u mynegi yn ofodol lle bo'n bosibl) a fydd yn arwain at gamau gweithredu yn y 5 mlynedd nesaf. Yn ychwanegol, mae angen cytuno ar gerrig milltir neu dargedau yn y dyfodol y tu hwnt i'r dyddiad hwn. Yn 2006, amlinellodd

[2] Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (2011) *The Strategic Plan for Biodiversity 2011-2020 and the Aichi targets – Living in Harmony with Nature* Secretariat of the CB, Quebec, Canada

Cynulliad Cymru ei weledigaeth ar gyfer yr amgylchedd yn 2026 o fewn Strategaeth Amgylcheddol Cymru[3]. Mae angen i'r targedau yn y Cynllun hwn adlewyrchu'r uchelgais bioamrywiaeth a amlinellwyd yng nghanlyniadau Strategaeth 19-22 (tt 36 a 38). Mae'r rhain wedi darparu ysgogiad pwysig ar gyfer camau gweithredu cydgysylltiedig dros y blynyddoedd, yn cynnwys denu cyllid Ewropeaidd ac eraill.

Rydym yn awgrymu bod angen 7 Nod. Dylid rhannu Nod 2 i ddau a dylid ychwanegu dau nod ychwanegol (Nodau 6 a 7 arfaethedig).

<u>Nod 1:</u> **Adfer cynefinoedd diraddiedig ar Raddfa**
Dylai hyn gael ei newid i '*adfer a gwella cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau gan weithio ar y raddfa briodol yn yr amgylchedd morol, dŵr croyw a thirol* '
Yna gellir gosod targedau i fesur cynnydd yn erbyn y nod hwn sy'n cysylltu'n ôl i Nod Strategol C a D. Dylai'r targed adfer o 15% gael ei gysylltu i unrhyw dargedau Dim Colled Net a osodwyd.

<u>Nod 2:</u> **Ymdrin â'r ffactorau negyddol allweddol o golli bioamrywiaeth a chynyddu cysylltedd yn sylweddol.**
Dylid rhannu'r nod hwn i 2 nod (nodau 2 a 3).
<u>**Rydym yn awgrymu:**</u>
**Nod 2:** ***defnyddio isadeiledd gwyrdd/glas ar raddfeydd cymdogaeth, awdurdodau lleol a chenedlaethol i gysylltu cynefinoedd ac ecosystemau er mwyn dod â budd i bobl a bioamrywiaeth.***
Mae enghreifftiau o gamau gweithredu yn cynnwys:

- datblygu polisïau isadeiledd gwyrdd/glas gwydn e.e. drwy adfywio polisi cynllunio, drwy ddefnyddio proses bresennol y Cynlluniau Datblygu Lleol, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol a gynigir ym Mil Cynllunio (Cymru);
- ymgysylltu ag eraill, e.e. awdurdodau lleol, tirfeddianwyr/rheolwyr a busnesau mewn gwella cysylltedd drwy reoli eu hystadau;
- ymrwymo i reoli gofodau anadeiledig ar ystâd Llywodraeth Cymru (yn cynnwys Ymddiriedolaethau GIG a'r holl CNLCau) fel isadeiledd gwyrdd amlddefnydd er mwyn creu budd i bobl a bioamrywiaeth.

**Nod 3:** ***Ymdrin â'r ffactorau negyddol allweddol sy'n achosi colli bioamrywiaeth.***
Mae enghreifftiau o gamau gweithredu yn cynnwys:

- nodi a mapio'r prif bwysau ar fioamrywiaeth a nodi'r mecanweithiau posibl i ymdrin â nhw. Mae ychydig o waith ar hyn eisoes wedi cael ei ddechrau drwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a phrosiect N2K LIFE.
- camau gweithredu penodol wedi'u cyfyngu gan amser er mwyn ymdrin â phwysau a bygythiadau â blaenoriaeth.

<u>Nod 4:</u> **Gwella rheoli ein hamgylcheddau ansawdd uchaf**

[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru (Mai 2006*) 'Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru'*

Newid hwn i *"gwella rheoli ein hamgylcheddau o'r ansawdd uchaf a'r cysylltedd rhyngddyn nhw".* Yn ogystal, mae angen i'r nod ymrwymo i'r amgylcheddau morol, tirol a dŵr croyw. Dylai ategu'r Nod 2 arfaethedig newydd a chanolbwyntio ar amgylcheddau o ansawdd uchel "mwy, gwell ac wedi cael eu cysylltu'n well". Rydym angen gweld ymrwymiad i gynnal ac adfer amrediad llawn o gynefinoedd naturiol, gwella cynefinoedd prin difrifol a chynnal/gwella mwy o gynefinoedd wedi'u haddasu (agwedd bwysig o gysylltedd) i gyflawni'r amrediad llawn o wasanaethau ecosystemau a gwella gwydnwch ar gyfer natur a phobl.

**Nod 5**: **Cyflawni Dim Colled Net**
Mae angen i'r nod ar gyfer 'Dim Colled Net' fod yn fwy penodol a bod yn rhan o brosesau rheoleiddiol ehangach (y tu hwnt i gynllunio). Ar hyn o bryd, mae asesiadau amgylcheddol ac ymarfer gorau yn cefnogi gwneud penderfyniadau er mwyn osgoi niwed a/neu gyflawni buddion bioamrywiaeth.

Mae enghreifftiau o gamau gweithredu yn cynnwys:

- Cytuno ar bolisi 'Dim Colled Net' a'i ymgorffori yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, datganiadau rheoli adnoddau naturiol ardaloedd ac ASAN.
- Sefydlu'r llinell sylfaen, monitro a chadw golwg er mwyn penderfynu 'Dim Colled Net'.
- Ymgysylltu â sectorau gwahanol ac archwilio sut fyddai 'Dim Colled Net' yn edrych er mwyn helpu busnesau ddeall beth sydd angen iddyn nhw ei wneud a sut y gall hyn ddarparu amrywiaeth o fuddion i'w gweithrediadau.

**Nod 6: (nod arfaethedig): Bydd pawb yn deall pwysigrwydd natur ac isadeiledd gwyrdd wrth gefnogi bywyd dynol, a byddan nhw'n ystyried arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddarbodus ar y rhain fel buddsoddiad hanfodol.**
Mae gan bob sector o'r gymdeithas gyfrifoldeb i wrthdroi colli amrywiaeth. Mae angen i'r nod hwn amlinellu targedau uchelgeisiol a fydd yn sbarduno camau gweithredu i hyrwyddo'r ddealltwriaeth o werth bioamrywiaeth, dylanwadu ar bolisi cyhoeddus ac annog pobl i weithredu. Bydd addysg yn hanfodol i adeiladu'r ddealltwriaeth fel y gall newid ddigwydd (gweler neges allweddol 12). Gallai targedai gynnwys gwneud defnydd mwy effeithiol o ddosbarthiadau yn yr awyr agored ac addysg yn yr awyr agored i wneud y cysylltiadau rhwng byw yn yr awyr agored a'i ddefnyddio, a chanlyniadau ymddygiad, ffordd o fyw a dylunio cynnyrch ar y fioamrywiaeth y mae pobl yn ei phrofi.

**Nod 7: (nod arfaethedig) – Lleihau effeithiau byd-eang penderfyniadau a chamau gweithredu a gymerwyd yng Nghymru**
Dylai nod 7 ganolbwyntio ar leihau effeithiau bioamrywiaeth byd-eang o benderfyniadau a chamau gweithredu a gymerwyd yng Nghymru. Mae hyn yn alinio â Nod 6 Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE[4] (osgoi colli

[4] Y Comisiwn Ewropeaidd (2011) *Strategaeth Fioamrywiaeth yr UE hyd at 2020. Swyddfa Gyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd,* Luxembourg

bioamrywiaeth fyd-eang) a dylid ei gyflawni yn bennaf drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Nod 5[5] yn y ddogfen ymgynghori gyfredol yn gam gweithredu yn hytrach na nod ac fe'i gwelir o dan gamau gweithredu 8 a 10 isod.

**C4. A yw'r camau gweithredu arfaethedig yn gywir ac yn ddigonol?**

Mae angen amlinellu'r camau gweithredu'n gliriach a chysylltu'n uniongyrchol yn ôl at y ddeddfwriaeth a'r mecanweithiau cyflawni. Dylai pob cam gweithredu amlinellu:

- Y Cam Gweithredu
- Ymrwymiadau strategol / y sefydliad sy'n arwain
- Yr amserlen ar gyfer cyflawni
- Adnoddau
- Sut y bydd yn creu budd i rywogaethau a chynefinoedd
- Sut bydd cynnydd yn cael ei fesur
- Atebolrwydd

**<u>Cam gweithredu 1</u> – Gosod rheolaeth effeithiol dros adnoddau naturiol.**

Mae hwn yn elfen bwysig o weithredu bioamrywiaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n anodd nodi o'r Cynllun Adfer Natur presennol sut yn union y bydd rheoli adnoddau naturiol yn cyflawni gweithredu ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd. Efallai, y gallai diagram esbonio hyn. Mae angen i'r Cynllun Adfer Natur gael llwybr clir tuag at ddatblygu a chyflawni rhaglen ddeddfwriaethol LlC yn cynnwys Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ac ASAN, a thuag at ddatganiadau rheoli adnoddau naturiol mewn ardaloedd. Byddai hyn yn gwella atebolrwydd drwy'r sectorau ar gyfer colli a diraddio bioamrywiaeth, ac annog gweithredu Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (ANChG) 2006: Dyletswydd Bioamrywiaeth a rhywogaethau a chynefinoedd Adran 42.

**<u>Cam gweithredu 2</u> – Cyflawni Cynllun Morol Cymru**

Dylai'r cam gweithredu hwn gynnwys cyfeiriad at warchod a rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig, yn arbennig felly, rhwydwaith N2K. Yr amcan yw dod â nodweddion ar safleoedd i gyflwr ffafriol.

**<u>Cam Gweithredu 3</u> - Hwyluso integreiddio polisi traws-sector**

Gallai'r ymrwymiadau strategol canlynol helpu i symud ymlaen â'r cam gweithredu hwn:

- Adolygu cymorthdaliadau'r llywodraeth gyda'r nod o ddiddymu'r rhai hynny sy'n niweidiol i fioamrywiaeth/natur (CAF Aichi targed 3). Yng Nghymru, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar y sector amaethyddol. Fodd bynnag, gall fod cymorthdaliadau eraill sy'n niweidio bioamrywiaeth a dylid adolygu'r rhain a datblygu cymhellion newydd sy'n annog penderfyniadau cadarnhaol.

---

[5] "Gosod fframwaith llywodraethu i gefnogi cyflawni, cydweithio traws-sectorol a chryfhau ein sylfaen dystiolaeth ar y cyd."

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

- Ymwreiddio blaenoriaethau a mesurau/dangosyddion y Cynllun Adfer Natur ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i wella atebolrwydd cyflawni traws-sector, ac adrodd drwy ASAN.
- Cynnal archwiliad bioamrywiaeth drwy adrannau'r Llywodraeth. Roedd adroddiad Ymholiad Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i golli bioamrywiaeth 2011[6] yn cynnwys argymhelliad: *"Mae Llywodraeth Cymru i gwblhau a chyhoeddi archwiliad ar sut mae dyhead y Llywodraeth i atal colli bioamrywiaeth yn cael ei adlewyrchu yng ngwaith cyfredol holl adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth".*
  Mae rhai awdurdodau lleol eisoes wedi gwneud hyn.
- Cefnogi gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth Deddf ANChG drwy'r llywodraeth a'i asiantaethau, a chefnogi a monitro cynnydd.
- Defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr UE mewn ffordd integredig er mwyn cynnal adfer natur ochr yn ochr ag amcanion economaidd a chymdeithasol ehangach. Datganodd Cyfarwyddwr Cyffredinol CG Amgylchedd y Comisiwn Ewropeaidd yn 2011 bod: *"Rhaglenni LIFE olynol wedi gosod blaenoriaeth uchel ar Natura 2000. Fodd bynnag, yr amcan strategol oedd prif ffrydio cyllid Natura 2000 i'r cronfeydd sectorol allweddol, ac yn y cyd-destun hwn, mae adnoddau pwysig wedi cael eu dyrannu o brif offerynnau cyllid yr UE fel cronfeydd polisi datblygu gwledig neu ranbarthol, cronfeydd cydlyniant a morol ".*[7]
- Mae awdurdodau lleol wedi penodi Eiriolwyr Bioamrywiaeth ar lefel Cabinet. Byddem yn dadlau dros enwebu Eiriolwyr Bioamrywiaeth drwy'r llywodraeth a diwydiant ar lefel uwch. Gallai'r eiriolwyr gyfathrebu'r peryglon a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth i grwpiau sector penodol mewn iaith y maen nhw'n ei deall.

Mae integreiddio polisi drwy'r holl sectorau y tu allan i'r sector amgylchedd fel datblygu economaidd, trafnidiaeth ac iechyd yn cysylltu'n ôl â'n gallu i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Bydd y fframwaith deddfwriaethol a pholisi newydd yn darparu cyfleoedd ehangach i ddylanwadu ar sectorau allweddol.

Y mecanweithiau allweddol ar gyfer cyflawni integreiddio yr ydym yn eu cydnabod yw:

i) y nod llesiant Cymru Wydn ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - "Amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau sy'n gweithredu mewn ffordd iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid"

ii) y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol fel sy'n cael ei amlinellu yn y Bil Amgylchedd – a ddylai fod yn glir ynghylch pwysigrwydd ategu

---

[6] Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynlliad Cenedlaethol Cymru (Ionawr 2011) *Ymchwiliad i Fioamrywiaeth yng Nghymru*
[7] Kettunen, M., Torkler, P. a Rayment, M. (2014) *Financing Natura 2000 Guidance Handbook.* Part I – EU funding opportunities in 2014-2020, cyhoeddiad a gomisiynwyd gan CG Amgylchedd y Comisiwn Ewropeaidd (Mehefin 2014)

bioamrywiaeth a lle mae gweithgaredd ar gyfer bioamrywiaeth yn helpu i gyflawni nodau'r Cynllun Adfer Natur.

iii) yr Agwedd seiliedig ar Ardal a'r Datganiadau Ardal fel sy'n cael eu hamlinellu ym Mil yr Amgylchedd – a ddylai ddarparu cyfeiriad eglur i gyrff cyhoeddus eraill yn y cyfraniad y gallan nhw ei wneud wrth gyflawni nodau'r Cynllun Adfer Natur, a thrwy hyn gydymffurfio â Dyletswydd Bioamrywiaeth Deddf ANChG ac arddangos defnydd yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r cyfraniad at y nodau Llesiant

iv) yn yr un modd, dylai'r Cynllun Morol Cenedlaethol fod yn glir ynghylch y swyddogaeth a ddisgwylir y bydd grwpiau diwydiant a sectorau gwahanol angen ei chymryd wrth gyfrannu tuag at wydnwch bioamrywiaeth ac ecosystemau morol.

Bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol angen i'r sector cyhoeddus ystyried y nodau datblygu cynaliadwy yn eu prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Nod "Cymru Gydnerth" yn y drafft yn darparu cyfle i sicrhau bod pob sector yn ystyried gwydnwch - ac felly bioamrywiaeth - yn eu prosesau gwneud penderfyniadau, ond bydd llwyddiant angen ymglymiad arbenigedd bioamrywiaeth. Bydd aelodaeth statudol Cyfoeth Naturiol Cymru o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn helpu i ymwreiddio blaenoriaethau adnoddau naturiol yn natblygiad y Cynlluniau Llesiant. Bydd gan drefniadau bioamrywiaeth leol swyddogaeth hanfodol yn ogystal, a gallan nhw helpu gyda blaenoriaethu a chyflawni lleol fel ei gilydd. Mae'r adnodd hwn yn risg allweddol fel y mae awdurdodau lleol ac eraill yn wynebu lleihad yn eu cyllidebau. Mae Llywodraeth Cymru angen sicrhau cytundeb ar sut i gadw arbenigedd, sgiliau a mecanweithiau hanfodol er mwyn cyflawni adfer natur a rheoli adnoddau naturiol a pholisïau cynllunio ehangach.

Mae angen i arbenigedd bioamrywiaeth drwy Gymru fod ynghlwm yn natblygiad y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, datganiadau rheoli adnoddau naturiol yr ardal a'r mecanweithiau sydd wedi cael eu datblygu fel rhan o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Bydd hyn yn sicrhau, wrth gydbwyso'r anghenion gwahanol o reoli tir a dŵr, bod yr effeithiau ar fioamrywiaeth, a'r cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth yn cael eu hystyried mewn ffordd ddeallus.

Gall ymwreiddio bioamrywiaeth yn y mecanweithiau cyflawni newydd gael ei arwain gan flaenoriaethau sy'n bodoli a thynnu ar waith sydd eisoes yn cael ei wneud ar lefel leol a chenedlaethol. Mae safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig a rhestr cynefinoedd a rhywogaethau Adran 42 Deddf ANChG (2006) yn ategu'r gwaith hwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ymgymryd â mapio cysylltedd ar gyfer safleoedd a chynefinoedd â blaenoriaeth, ac mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC) wedi cynhyrchu mapiau yn dangos lle mae angen gweithredu brys ar gyfer ecosystemau gwahanol. Mae'r rhain yn sylfaenol i gyflawni'r Nodau y tynnwyd sylw atyn nhw yn y Cynllun Adfer Natur. Rydym yn gweld y rhain yn hanfodol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y dull seiliedig

ar ardal, yn arbennig felly, lle maen nhw'n gallu cael eu cyflwyno fel mapiau cyfleoedd strategol. Yn yr un modd, mae'r awdurdodau lleol wedi mapio eu safleoedd bywyd gwyllt lleol ac mae Partneriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLlau) wedi nodi'r blaenoriaethau. Ynghyd â'r holl waith sydd wedi cael ei wneud gan sefydliadau partner, mae hyn yn darparu cyfoeth o wybodaeth ar yr hyn y gellir adeiladu blaenoriaethau yn y dyfodol, er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer datganiadau, polisïau a chynlluniau newydd.

**<u>Cam gweithredu 4</u> – Cyllido ein partneriaid**
Mae angen ychydig o wahanu rhwng y cam gweithredu 'Cyllido Ein Partneriaid' a'r cam gweithredu 'Nodi offerynnau ariannol'.

Ar hyn o bryd, mae'r cam gweithredu Cyllido Ein Partneriaid yn cynnwys cyllid Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (CMPhE) a LIFE. Mae'r cam gweithredu ar offerynnau ariannol yn cynnwys cyfeiriad at y Cyfleuster Cyllido Cyfalaf Naturiol sy'n rhan o Raglen LIFE. Rydym yn awgrymu bod yr adran Gyllido yn gallu cynnwys cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru a gallai'r adran arall gynnwys ffrydiau cyllido Ewropeaidd a ffrydiau cyllido eraill.

Rydym yn croesawu'n fawr yr ymrwymiad i gyllido ein partneriaid oherwydd ni all y Cynllun Adfer Natur gael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru na Cyfoeth Naturiol Cymru ar eu pennau eu hunain. Bydd angen cynnwys amrediad o randdeiliaid a bydd angen adnoddau (staff a chyllid) i gyflawni, ac felly bydd y cam gweithredu hwn yn ategu rhan helaeth o'r cyfraniad y bydd rhai partneriaid yn ei wneud. Mae angen datblygu a chyflawni cyfleoedd cyllido mewn ffordd gydgysylltiedig.

Mae angen ymwreiddio dwy brif neges i unrhyw ddull o gyllido gan y Llywodraeth, sef:

- Rhaglen gyllido dros 3-5 mlynedd gyda lansiad blynyddol a fyddai'n sefydlu amserlen tymor hirach ar gyfer ei chyflawni. Byddai'r dull tymor hirach hwn nid yn unig yn galluogi parhad ac annog partneriaid i ddatblygu prosiectau o ansawdd gwell, ond byddai yn ogystal yn ystyried yr amser sydd ei angen i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a mesuradwy i gynefinoedd a blaenoriaethau.
- Rhaid i unrhyw gronfa ystyried yr amser sydd ei angen ar gyfer defnyddio, asesu a sefydlu prosiectau a mentrau: nid yw amser rhagarweiniol byr yn ffafriol i brosiectau o ansawdd.

Gallai Llywodraeth Cymru archwilio Cydweithio Strategol ymhellach drwy bartneriaethau, gan adeiladu ac ehangu ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu partneriaeth ar y cyd ynghylch mater penodol, datblygu syniadau a gwella'r gallu i ymdrin â'r mater hwn. Un enghraifft yw prosiect Mawndiroedd ar gyfer y Dyfodol sy'n ymddangos ac yn cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru. Ceir cyfleoedd arwyddocaol eraill, yn cynnwys y

defnydd ehangach o’r model a ddatblygwyd ar gyfer Cronfa Ecosystemau Gwydn Llywodraeth Cymru.

**<u>Cam gweithredu 5</u> – Nodi Offerynnau ariannol**

Mae gan nifer o fecanweithiau cyllid Ewropeaidd y potensial i gefnogi adfer natur.

- **Cyllid LIFE:** Rhaglen LIFE yw’r unig gronfa Ewropeaidd sydd ar gyfer cyllido’r amgylchedd yn unig. Mae’r cyfleoedd a gynigir gan LIFE yn cynnwys pob agwedd o’r amgylchedd, yn cynnwys bioamrywiaeth, cadwraeth natur ac yn arbennig ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd. Mae’r ddogfen Ymgynghori yn cyfeirio at gymhlethdodau ymddangosiadol y gronfa hon, a bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru gefnogi ymgeiswyr LIFE i gael mynediad at y cronfeydd hyn er mwyn sicrhau bod y cyfleoedd a gynigir yn cael eu mwyhau. Mae’r Cyfleuster Ariannu Cyfalaf Naturiol (CACN) yn rhan o Raglen LIFE a bwriedir iddo annog buddsoddiadau mewn prosiectau cynhyrchu refeniw neu brosiectau arbed costau sy’n hyrwyddo cyfalaf naturiol a thwf gwyrdd. Mae cyfeiriad at y CACN yn y ddogfen Ymgynghori yn cael ei groesawu, oherwydd gall hwn hyrwyddo cydnabyddiaeth o swyddogaeth economaidd yr amgylchedd naturiol.

Mae fframwaith strategol yn gosod amcanion bras a blaenoriaethau cymharol ar gyfer cyllido yn bwysig. Gall prosiect N2K LIFE sydd wedi’i reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu’r fframwaith hwn ar gyfer safleoedd *Natura* Cymru, ond gellid datblygu fframwaith tebyg ar gyfer safleoedd eraill a byddai’n gweithredu fel canllaw i gyllidwyr ac ymgeiswyr fel ei gilydd. Fodd bynnag, byddai angen cronfeydd penodedig.

Dylid annog a chefnogi datblygu prosiectau mawr wedi’u cyllido’n allanol gan bartneriaid, gyda llwybr clir at wybodaeth, cyfleoedd arian cyfatebol, paratoi ceisiadau, arbenigedd rheoli prosiectau a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Byddai cyllid i gefnogi datblygiadau technolegol a dulliau arloesol eraill i ddatrys problemau rheoli bioamrywiaeth yn cael ei groesawu, yn union fel sy’n digwydd gyda Menter Busnesau Bach lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi ymgysylltu. Yn ogystal, dylid ymchwilio i ddichonoldeb mentrau fel cynlluniau ad-dalu gan ymwelwyr, a datblygu a marchnata cynnyrch o ardaloedd bywyd gwyllt.

Yn ogystal, byddem yn croesawu mecanweithiau cyllido strategol sy’n gwella natur drwy dargedu rheoli tir fferm preifat yn gynaliadwy. Byddai hyn angen bod ar lefel y dirwedd drwy annog cydweithredu a chydweithio â ffermwyr. Mae poblogrwydd Cronfa Natur Llywodraeth Cymru yn dangos yn glir, gyda’r mentrau cywir wedi’u sefydlu, y ceir llawer o grwpiau ffermwyr sy’n fodlon cyflawni amrediad eang o wasanaethau sydd o fudd i natur yn ychwanegol at gynhyrchu bwyd cynaliadwy ar eu ffermydd.

Mae angen trafodaeth glir ac agored rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill ar wella a chyfuno mecanweithiau presennol a datblygu rhai newydd er mwyn annog mwy o fuddsoddiad yn yr amgylchedd naturiol. Gall cyfleoedd pellach godi drwy weithredu lle mae methiant yn y farchnad, a thrwy gysylltu buddiolwyr gwasanaethau gyda'r rhai hynny sy'n darparu'r budd.

**<u>Cam gweithredu 6</u> – Adolygu safleoedd a rhywogaethau dynodedig**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r datganiad bod *"Ein safleoedd dynodedig yn emau yng nghoron ein hamgylchedd naturiol ac mae angen iddyn nhw fod yn graidd i'n dull sydd wedi'i adnewyddu."*

Mae'r cynnig ynghylch integreiddio amcanion cadwraeth yn hytrach na'r rhywogaethau a'r cynefinoedd. Rydym yn awgrymu bod y cam gweithredu hwn yn cael ei ailenwi i adlewyrchu hyn.

Dylai'r testun egluro y bydd rheoli ac adfer safleoedd N2K yn cael eu cyflawni o dan fframwaith strategol Rhaglen N2K LIFE a Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth (FfGB). Bydd y rhaglen yn amlinellu'r camau gweithredu, y costau a'r blaenoriaethau ar gyfer y rhwydwaith. Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y fenter hon yn cael ei chroesawu. Dylid cefnogi'r cyflawniad o gamau gweithredu â blaenoriaeth uchel yn y rhaglen N2K a FfGB, er enghraifft, drwy gael mynediad at gronfeydd allanol fel y gellir cyflawni cyflwr ffafriol y nodweddion o fewn yr amserlenni a nodwyd.

Mae'r cam gweithredu hwn yn ymrwymo'r *"Llywodraeth i osod amcanion clir ar gyfer rhwydwaith dynodedig Ewropeaidd Natura 2000 (N2K) yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol statudol."* Rydym yn cytuno y byddai o gymorth i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ei wneud yn glir bod cwrdd ag anghenion cadwraeth ac adfer rhwydwaith N2K yn flaenoriaeth. Dylai hyn gael ei ddatgan yn y Cynllun Adfer Natur yn ogystal. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth a olygir gan y cynnig i Lywodraeth Cymru osod amcanion clir ar gyfer rhwydwaith N2K. Bydd angen i unrhyw amcanion o'r fath alinio'n agos gyda nod strategol y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, neu fel arall, mae perygl iddo greu tensiynau rhwng y Polisi Adnoddau Naturiol newydd ac ymrwymiadau Cymru o dan y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar. Yn ogystal, bydd angen i unrhyw amcanion ar lefel genedlaethol neu strategol ar gyfer rhwydwaith N2K gefnogi ac atgyfnerthu'r amcanion ar lefel y safle a osodwyd yn y cynlluniau rheoli ar gyfer safleoedd N2K.

Byddem yn croesawu ychydig o drafodaeth bellach ar y cynnig i "*Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu a chryfhau'r dull ar gyfer cynlluniau rheoli safleoedd fel eu bod yn ymdrin â'r heriau sylfaenol sy'n wynebu'r ardaloedd dynodedig yn rhagweithiol fel bod gweithgaredd rheoleiddiol a chyllidol yn cael ei alinio'n llawn i gyflawni'r amcanion rheoli."* Mae gan y darn hwn o waith y potensial i fod yn arwyddocaol. Mae Cyfoeth Naturiol

Cymru eisoes yn cynnal adolygiad ac yn diweddaru cynlluniau rheoli N2K. Byddem yn croesawu'r drafodaeth yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn.

Mae'r SoDdGAau a safleoedd N2K yn cynrychioli'r safleoedd pwysicaf yng Nghymru ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. Bydd atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yn llwyddiannus, angen gweithredu ar y cyd, y tu mewn a thu allan i rwydwaith y safleoedd dynodedig fel ei gilydd. Dylai pwyslais yr haen arbennig hon o waith gan hynny edrych ar sut gall mesurau yn yr amgylchedd ehangach helpu i gryfhau a chyfannu gallu'r safleoedd hyn i gyflawni eu pwrpas statudol o helpu i gadw ac adfer bioamrywiaeth. Gyda'r cafeat hwn, rydym yn cefnogi'r egwyddor o geisio trin safleoedd N2K, dynodiadau eraill a'r amgylchedd ehangach mewn ffyrdd sy'n cyflawni buddion lluosog. Mae'r gyfres bresennol o safleoedd dynodedig yng Nghymru eisoes yn darparu amrediad eang o fuddion yn nhermau gwasanaethau ecosystemau. Dangosodd ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan Defra ar fuddion SoDdGAau yng Nghymru a Lloegr bod gwerth SoDdGAau a amcangyfrifir yn nhermau darparu gwasanaethau ecosystemau yn llawer uwch na'u cost[8]. Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth yn ogystal bod gwerth SoDdGAau fel darparwyr gwasanaethau ecosystemau yn cael ei wella ymhellach os ydyn nhw wedi cael eu rheoli'n dda er mwyn cyflawni cyflwr ffafriol y nodweddion dynodedig.

Rydym yn nodi mai'r bwriad yw archwilio cyfleoedd ar gyfer newid deddfwriaethol yn y dyfodol os ydyw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol, ac edrychwn ymlaen at barhau i gefnogi a chynghori Llywodraeth Cymru wrth nodi a deall natur ac achosion unrhyw amcanion gwrthdrawiadol ynghylch safleoedd dynodedig a rhywogaethau gwarchodedig, ac atebion posibl.

Yn gyffredinol, nid yw'r amcanion o'r deddfwriaethau gwahanol yn gwrthdaro, ond ceir lefelau gwahanol o ddyhead a ffocws gwahanol yn aml. Mae gwaith eisoes ar y gweill i alinio'r amcanion (e.e. Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gyda Rheoliadau Cynefinoedd), a lle nad yw efallai'n bosibl i ddileu amcanion, byddai'n well ystyried cynyddu tryloywder, aliniad ac integreiddio'r amcanion hynny o gwmpas lle arbennig.

**<u>Cam gweithredu 7</u> – Monitro ac adolygu offerynnau rheoleiddiol**
Rydym yn nodi bod Comisiynydd newydd dros Amgylchedd, Materion Morol a Physgodfeydd yr UE, Karmenu Vella, wedi datgan y bydd yn ymgymryd â "Gwiriad Ffitrwydd" o Gyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar, ac felly bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried.

**<u>Cam gweithredu 8</u> – Gwella'r sylfaen dystiolaeth: Ymchwil, Monitro a Chadw Golwg**
Mae angen i'r Cynllun gynnwys cydnabyddiaeth o le rydym ni'n awr a lle rydym angen bod gyda datblygu bioamrywiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth. Yna, dylem ganolbwyntio ar y cam gweithredu strategol sydd ei angen, pwy sydd angen cael ei gynnwys a sut y bydd hwn yn derbyn adnoddau,

[8] GHK Consulting Ltd, ar y cyd â Dr Mike Christie o Brifysgol Aberystwyth, ADAS, IEEP, Rick Minter a'r Research Box (Mehefin 2011) Benefits of Sites of Special Scientific Interest DEFRA, Llundain

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

gyda golwg ar roi gwybod i ASAN ac i'n hymrwymiadau adrodd rhyngwladol yn ogystal â darparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu Strategaeth Dystiolaeth mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 8 o amcanion strategol. Mae'r rhain yn disgrifio ein huchelgais hirdymor ac maen nhw i gyd yn berthnasol yng nghyd-destun ymateb i'r ymgynghoriad hwn (gweler Atodiad 3). Mae Amcan 6 yn benodol yn bwysig yma "*Byddwn yn gweithio ar sicrhau'r dystiolaeth sydd ei hangen i atal colli bioamrywiaeth (yn cynnwys cyflawni targedau CAF a'r UE) ac ar gyfer addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd.*" Mae'r hyn y gellir ei gyflawni ar gyfer yr amcan hwn yn cynnwys:

- Darparu sylfaen dystiolaeth i sicrhau rheoli ac adfer ein safleoedd dynodedig yn strategol yn yr hir dymor;
- Parhau i ddarparu sylfaen dystiolaeth i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ein dealltwriaeth o gysylltedd ecolegol;
- Parhau i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth bioamrywiaeth strategol (e.e. mapio cynefinoedd);
- Darparu'r dystiolaeth er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer ein hymdrechion i gwrdd â thargedau CAF/Aichi i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth.

Ni ellir ymgyrraedd at y rhain heb gyflawni pob un o'r 8 amcan er mwyn adeiladu ein gallu, ein sylfaen dystiolaeth, ein partneriaethau a'n gallu i ddehongli tystiolaeth. Bydd hyn yn ei dro yn ategu ein cyngor yn fewnol ac i Lywodraeth Cymru fel ei gilydd, a bydd yn gwella ein gallu i adrodd.

Mae gwelliannau mewn monitro a chadw golwg angen lledu'r rhaglenni hyn i'r amgylchedd ehangach. Mae angen i hyn gynnwys monitro a chadw golwg am rywogaethau, cynefinoedd, gweithrediad ecosystemau, newidion amgylcheddol a phwysau dynol sy'n effeithio ar fioamrywiaeth. Yn arbennig, mae angen cael cofnod o'r colledion a'r effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygiad neu benderfyniadau rheoleiddiol. Mae hyn angen cynnydd sylweddol mewn adnoddau. Bydd sylfaen dystiolaeth annigonol neu ansicr yn cynhyrchu risgiau a allai beryglu'r Cynllun Adfer a chynnydd y rheoli amgylcheddol sydd ei angen.

Rydym yn cefnogi'r awgrym i gynnwys profi a monitro agweddau sylfaenol gweithrediad ecosystemau fel cyflwr y pridd. Mae hyn yn gyson ag ymatebion polisi Ewropeaidd a rhyngwladol i golli bioamrywiaeth, lle mae materion ynghylch y pridd yn cael eu hystyried yn gynyddol ac yn benodol e.e. CAF[9] a Nodau Datblygu Cynaliadwy[10,11].
Mae diffyg dealltwriaeth o briddoedd yn cyflwyno bwlch gwybodaeth sylweddol[12], a oedd yn llesteirio cyflawni prif darged 2010 ar gyfer

[9] Report of the Subsidiary Body on Scientific, Technical and Technological Advice on the Work of Its Seventeenth Meeting. UNEP/CBD/COP/12/2.
[10] The Future We Want: Outcome document adopted at Rio+20. A/RES/66/288.
[11] Report of the Open Working Group of the UN General Assembly on Sustainable Development Goals. A/68/970.
[12] EU 2010 biodiversity baseline. Adroddiad EEA Rhif 12/2010.

bioamrywiaeth ac mae'n rhwystr rhag cyflawni prif darged a gweledigaeth 2020 ar gyfer bioamrywiaeth [13]. Bydd gwaith i sefydlu cyflwr y pridd ac asesu'r risgiau o golli bioamrywiaeth yn y pridd angen defnyddio dangosyddion cadarn a bod yn integredig gyda rhaglenni sy'n astudio'r berthynas rhwng priddoedd, bioamrywiaeth ar ben tir, a'r gwasanaethau ecosystemau sy'n dod o ganlyniad i hynny[14]. Rydym yn cydnabod arwyddocâd gwaith monitro ansawdd y pridd sy'n cael ei wneud ar gyfer Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. Bydd cynyddu monitro i gynnwys priddoedd yn ddigonol fel rhan Reoli Tir Cynaliadwy a Rheoli Adnoddau Naturiol Integredig angen cynnydd sylweddol mewn adnoddau.

Yn ogystal, rydym yn cadw mewn cof bod y berthynas rhwng bioamrywiaeth a chysyniadau fel gwydnwch, ymwrthedd a gwasanaethau ecosystemau yn gymhleth ac yn parhau i gael eu deall yn wael. Ceir anghenion ymchwil sylfaenol ac ar raddfa fawr ynghylch deall swyddogaeth a strwythur yr ecosystem; rhyngweithiadau newid yn yr hinsawdd; effeithiau pwysau cronnol; a chynnal a chynyddu buddion i'r ecosystem. Rydym yn cydnabod bod yr angen am y math hwn o ymchwil yn ymestyn y tu hwnt i Gymru ac mae'n cael ei adlewyrchu yn strategaeth wyddoniaeth y DU, fel Strategaeth Wyddoniaeth Forol y DU. O ganlyniad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio dylanwadu ar agenda ymchwil sefydliadau eraill fel Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ymroi'n llawn i uchelgais gweithredol Egwyddorion Hampton – casglu data unwaith, ei rannu a'i ddefnyddio yn aml. Yn ogystal, credwn mai amcan cyffredinol tystiolaeth yw darparu'r cyd-destun i symbylu newidiadau cymdeithasol a llywodraethol sydd eu hangen i warchod natur yn y dyfodol.

O gofio'r heriau sylweddol a nodwyd uchod a'r ymrwymiad i ddatblygu polisi yn seiliedig ar dystiolaeth, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i chwilio am gyfleoedd i ymdrin â'r bylchau allweddol mewn adnoddau a gallu. Mae'r datblygiad a awgrymwyd o sylfaen dystiolaeth ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cael ei groesawu. Bydd yn cefnogi ein tystiolaeth a'n gwaith adrodd ymhellach os ydym yn ymgysylltu yn ogystal gyda mecanweithiau presennol a chynlluniedig y DU fel Partneriaeth Cyflwr Natur. Yn unol â hyn, rydym yn cefnogi'r defnydd o'r Ganolfan Wybodaeth yn gryf a'i swyddogaeth i wneud y data amgylcheddol yn agored ac ar gael i unrhyw un gydag angen neu ddiddordeb. Dylai'r gwaith hwn gysylltu ac adeiladu ar fentrau sy'n bodoli ac ymgysylltu mewn partneriaethau ehangach. Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys canolfannau Cofnodion Lleol, prosiect Bylchau Tystiolaeth y PBC a'r defnydd a'r gefnogaeth barhaus o SAWB fel y fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer y Cynllun Adfer Natur.

[13] Impact assessment (SEC(2011) 540) accompanying Our life insurance, our natural capital: an EU biodiversity strategy to 2020 (COM(2011) 244 final).
[14] Soil biodiversity: functions, threats and tools for policy makers. Technical Report - 2010 - 049.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i fonitro a modelu'r Cynllun Adfer Natur a byddwn yn cefnogi trafodaeth ehangach, yn cynnwys partneriaid, ar sut y gellir cyflawni hyn. Bydd unrhyw fonitro o effaith y Cynllun Adfer Natur angen cael ei alinio i ofynion ar gyfer ASAN ac, yn y pen draw, ar gyfer adrodd CAF, a chynnwys data o fonitro statudol presennol. Yn ogystal, dylai monitro geisio gwneud defnydd o raglenni monitro hir dymor sy'n bodoli, e.e. ar gyfer gloÿnnod byw, ystlumod a rhai rhywogaethau adar, yn ogystal â data o'r cynlluniau monitro amgylcheddol hir dymor.

**<u>Cam gweithredu 9</u> – Cyfathrebu ac Ymgysylltiad Effeithiol**
Er mwyn sicrhau cyflawni'r canlyniadau, mae'n allweddol i ymgysylltu ynghylch gwerth bioamrywiaeth Cymru. Dylid cyflawni hyn drwy gyfathrebu effeithiol i amrediad amrywiol o gynulleidfaoedd gyda ffocws clir i annog newid ymddygiad lle bo'n briodol.

Cytunwn â'r datganiad bod angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â thanio brwdfrydedd a chyfathrebu gwerth bioamrywiaeth fel bod rhanddeiliaid yn cael eu hannog i weithredu. Teimlwn fod yr adran hon o'r Cynllun Adfer Natur yn hanfodol a dyma pam yr ydym wedi awgrymu bod ymgysylltu â phobl a'u hannog i weithredu yn dod yn nod newydd penodol ar gyfer y cynllun (fel y cafodd ei grybwyll yn ein hymateb i C3). Dylai'r nod hwn gael targedau a chanlyniadau diffiniedig, clir fel y gallwn ddilyn a mesur cynnydd dros amser.

Cafodd llawer o waith ei wneud i gymell pobl i werthfawrogi, gofalu a gweithredu dros fioamrywiaeth ar gyfer Blwyddyn Ryngwladol Bioamrywiaeth yn 2010 a *Futerra* - asiantaeth gyfathrebu greadigol - a ddatblygodd ganllaw i greu negeseuon effeithiol.
Y syniad allweddol o'r gwaith hwn yw ein bod angen dyneiddio a phersonoli'r neges amgylcheddol. Ond yn y pen draw, rhaid i ni sicrhau bod pobl yn deall "pam" mae adfer natur yn bwysig wrth adeiladu dyfodol diogel. Yr allbwn allweddol o'r gwaith hwn yw mai drwy bersonoli'r neges amgylcheddol, rydym yn ei gwneud yn fwy ystyrlon i'r rhai hynny yr ydym yn dymuno eu cyrraedd.

Fodd bynnag, ni ddylid gweld bioamrywiaeth a natur fel ffactorau annibynnol – rhaid i ni sicrhau eu bod yn dod yn gonglfaen ein neges. Cysyniad sy'n datblygu yw Rheolaeth Adnoddau Naturiol Integredig ac mae Llywodraeth Cymru yn arwain wrth ddatblygu diffiniad cytunedig. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddisgrifio'r cysyniad mewn ffordd hygyrch, mewn iaith hawdd ei deall. Yn y ffordd hon, bydd pobl yn deall y syniadau y tu ôl i'r ddamcaniaeth, yn annog momentwm yn ei ddefnydd fel sylfaen ar gyfer ein penderfyniadau.

**Cynllun cyfathrebu ar gyfer y Cynllun Adfer Natur**: credwn fod angen cryfhau hwn. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain, ysbrydoli ac ymgysylltu ag eraill fel y gallwn gydweithio i gyflawni dull cyfathrebu ar y cyd yn erbyn yr hwn gall ein gwaith gael ei werthuso a'i fesur.

Tra bod y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio ar rai partneriaethau sy'n bodoli, ceir llawer o raglenni gwaith eraill a allai fod yn enghreifftiol. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru swyddogaeth allweddol i chwarae mewn datblygu dull cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol, ac mae'n fodlon cydweithio er mwyn creu'r canlyniadau gorau er bydd Cymru.

**Cam gweithredu 10 – Darparu Gwell Llywodraethu ar gyfer Natur**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gefnogol i'r cam gweithredu hwn. Mae'n bwysig bod yr 'adfywio' yn ymgysylltu'n llawn â phartneriaid sy'n bodoli ac yn adeiladu ar lwyddiannau'r trefniadau presennol.

Mae grwpiau Cymru gyfan yn elfen bwysig o gyflawni'r cynllun hwn. Bu'n amhrisiadwy cael grwpiau sy'n gallu rhoi cyngor deallus i'r rhai hynny sy'n cyflawni'r camau gweithredu. Mae gwir angen sefydlu strwythur llywodraethu cadarn er mwyn goruchwylio rheoli ac adfer y rhwydwaith N2K drwy Gymru yn ychwanegol at grwpiau ecosystemau a rhywogaethau a grwpiau RhEG. Yr her fydd i sicrhau bod yr anghenion strategol yn cael eu hymwreiddio i'r strwythurau llywodraethu lleol sy'n cael eu datblygu, yn ogystal â grwpiau ar lefel Cymru-gyfan.

Bu'n her yn y strwythur presennol i ymgorffori ffordd o ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd er mwyn gwella integreiddio a lledu perchnogaeth heb wanhau'r sail wyddonol gadarn ar yr hon y mae grwpiau ecosystemau a rhywogaethau wedi cael eu sefydlu. Efallai byddai'n well i sefydlu hwn drwy gysylltiadau cadarn o'r BSBC i'r sector cyhoeddus ehangach, fel rhan o'r llywodraethu ffurfiol a'r trefniadau adrodd ar gyfer Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn y pen draw, dylai llywodraethu da arwain at fwy o weithgaredd ar lawr gwlad a gwireddu'r nodau a amlinellwyd yn y cynllun hwn. Mae partneriaethau, fforymau a grwpiau rhanbarthol (a gyfeirir atyn nhw fel grwpiau rhanbarthol), CGBLlau, a CCLlau yn enghreifftiau o fentrau sydd wedi ysgogi ymdrechion lleol.
**Grwpiau rhanbarthol** - Mae gan y rhain swyddogaeth fwy strategol ac maen nhw'n gweithio i gyflawni blaenoriaethau ar y cyd ar draws nifer o CGBLlau e.e. drwy fentrau ar raddfa'r dirwedd yn ogystal â datblygu canllawiau a chynigion cyllido cyffredinol sy'n croesi ffiniau.
**CGBLlau** – Mae'r rhain yn dod â phobl leol, staff awdurdodau lleol ac eraill ynghyd gyda'r arbenigedd i gynllunio camau gweithredu a chyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar y cyd. Mae camau gweithredu wedi cynnwys rheoli ymarferol, dylanwadu gwneud penderfyniadau lleol, casglu'r dystiolaeth, gweithgareddau addysgol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau fel y rhai hynny a gynhaliwyd yn ystod Wythnos Bioamrywiaeth Cymru; y cwbl wedi anelu at gynyddu gwybodaeth, diddordeb a dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd natur.
**CCLlau** - Mae ganddyn nhw swyddogaeth allweddol mewn gwyddoniaeth y dinesydd ac ymgysylltu â chofnodwyr lleol a grwpiau cofnodi. Mae

ganddyn nhw lawer o brofiad yn y maes hwn, yn ogystal â phersbectif lleol unigryw a chysylltiadau sefydledig.

Fel y bydd awdurdodau lleol yn ailstrwythuro, bydd yn bwysig cynnal arbenigedd lleol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda CLILC a Chyfoeth Naturiol Cymru i ystyried pa gamau gweithredu ar lefel leol fydd yn helpu i gyflawni Cynlluniau Llesiant lleol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol os yw polisïau cenedlaethol ar gyfer natur a rheoli adnoddau naturiol ehangach am weithio. Gallai ymrwymiad i ddatblygu'r cysylltiadau hyn wneud defnydd effeithiol o wybodaeth, arbenigedd a sgiliau lleol.

Mae'r cam gweithredu hwn yn ymrwymo i nodi rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth y mae cymdeithas yn dymuno iddyn nhw gael budd. Mae hyn yn bwysig, yn arbennig felly, os yw Cynllun Adfer Natur am ymgysylltu â'r cyhoedd, ac i ryw raddau mae hyn wedi cael ei wneud drwy fentrau fel *County Flower* gan *Plantlife*. Fodd bynnag, rhaid i flaenoriaethau Cymru ar gyfer gweithredu fod wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn ac wedi'i hysbysu gan yr arbenigedd perthnasol yn ogystal ag alinio gyda'r ymrwymiadau presennol sydd wedi cael eu diffinio mewn deddfwriaeth Ewropeaidd a'r DU.

**C5. Pa gamau gweithredu ychwanegol fyddech chi'n hoffi eu gweld?**

Mae'r cynllun yn cynnig cyfres eithaf cynhwysfawr o gamau gweithredu lefel uchel. Y prif fylchau a nodwyd yw camau gweithredu i gefnogi Nodau arfaethedig 2 a 7. Byddai cynnwys cam gweithredu sydd wedi ymrwymo i gyflawni cyflwr ffafriol ar bob safle dynodedig yn ddefnyddiol. Y rhagdybiaeth yw y bydd y 'Cynllun' lefel uchel hwn yn cael ei gefnogi gan ddatblygu cynllun gweithredu ag adnoddau priodol i alluogi cyflawni ar lawr gwlad.

Dylai'r ffocws fod ar gael y camau gweithredu arfaethedig yn gywir a'u cysylltu'n gadarn i drefniadau llywodraethu sy'n ymddangos o ddeddfwriaeth a pholisi newydd ac i ASAN. Dylai hyn sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd a mwy o atebolrwydd ar gyfer y Cynllun Adfer Natur, a chefnogi gwir fuddion i natur ar lawr gwlad drwy ddefnyddio'r gyfres lawn o fecanweithiau ac offerynnau sy'n bodoli ac sy'n datblygu.

**C6. Sut ydym ni'n ymgysylltu â busnes er mwyn cyflawni ein huchelgais?**

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid o sectorau busnes allweddol mewn deall buddion natur ac mewn datblygu mecanweithiau ac offerynnau ar gyfer cyflawni Cynllun Adfer Natur, ymwreiddio eu gwybodaeth, dysgu o'u profiad a defnyddio eu sgiliau.
- Cynyddu ffocws y Cynllun Adfer Natur ar atebion 'dechrau'r bibell' sy'n cael gwared ag achosion o golli bioamrywiaeth. Bydd ymgysylltiad dyfnach mwy tryloyw gyda busnesau a chyd-ddatblygu atebion ymarferol yn rhan bwysig o ddatrys problemau yn y tarddiad.

- Mae Eiriolwr Arloesi Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymchwilio i'r posibilrwydd o greu Cynghrair Adnoddau Naturiol gyda ffocws ar Gymru i ddod ag arweinwyr busnesau blaengar a gwneuthurwyr polisi a staff at ei gilydd er mwyn datblygu ffyrdd posibl at lwyddiant sy'n ystyried y newid radical, trawsnewidiol a fydd ei angen.
- Diwygio cymhellion, ar wahân i amaethyddiaeth, fel yr awgrymwyd o dan Gam Gweithredu 3 ar Integreiddio. Yn ogystal, gallai hyn ymestyn egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' i fioamrywiaeth drwy gynnig gwobrwyon ariannol neu esemptiadau rhag talu i fusnesau sy'n cyfranogi'n effeithiol mewn cynlluniau i hyrwyddo bioamrywiaeth (e.e. Cynllun Meincnodi Bioamrywiaeth yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt), ac adfer yr arian o ddirwyon neu daliadau i'r rhai hynny sydd ddim yn llygru - gan wneud y polisi hwn yn gyllidol niwtral.
- Defnyddio'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi newydd (yn cynnwys y Cynllun morol) i edrych o'r newydd ar sut y mae Cymru yn datblygu ei hisadeiledd. Mae cyfle i fabwysiadu dull strategol a hirdymor i integreiddio isadeiledd gwyrdd, glas a llwyd er mwyn sicrhau gwydnwch economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Bydd yn helpu Cymru i ddenu busnesau hirdymor, cynaliadwy.
- Defnyddio'r CDG newydd i ganolbwyntio ar (i) ddull sydd wedi'i dargedu'n fwy i daliadau rheoli tir sydd ar gael o dan Glastir; (ii) buddsoddiadau cyfalaf sy'n cyfrannu at effeithlonrwydd adnoddau; a (iii) systemau cynghorol sy'n darparu ffermwyr gydag offerynnau ymarferol i fesur cyfraniadau eu busnesau i reoli tir yn gynaliadwy.
- Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cyflogi cynghorwyr amgylcheddol ar gyfer yr ardaloedd menter i sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cyfrannu'n weithredol at y Cynllun Adfer Natur a'r nodau amgylcheddol eraill. Gellid cysylltu'r rhain i ddatganiadau rheoli adnoddau naturiol yr ardal a chyflawni Cynlluniau Llesiant lleol.

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn amlinellu'r uchelgais ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau. Fodd bynnag, gall y nodau a'r camau gweithredu ddarparu gwybodaeth ar gyfer strategaethau yn y dyfodol a dylid eu cefnogi gan y llywodraeth drwy gyllid, cymhellion a chyfleoedd buddsoddi ar gyfer pob sector, o amaethyddiaeth a choedwigaeth i ynni a physgodfeydd.

**C7. Sut gallwn ni gryfhau'r ffordd yr ydym yn gweithio â'n gilydd?**

**Integreiddio**: Sicrhau bod adfer natur wedi'i integreiddio'n gadarn yn y fframwaith deddfwriaethol a pholisi newydd a'r mecanweithiau cyflawni sy'n deillio ohonyn nhw. Drwy'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad, rydym wedi amlinellu sut yr ydym ni yn meddwl y gellid cyflawni hyn er mwyn sicrhau bod y Cynllun Adfer Natur yn cael ei gyflawni drwy ddull newydd Llywodraeth Cymru tuag at ddatblygu cynaliadwy, rheoli adnoddau naturiol, cynllunio a chynllunio morol. Yn ganolog i hyn, mae cysylltu llywodraethu ac adrodd dros fioamrywiaeth i lywodraethu ac adrodd dros

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

ddatblygu cynaliadwy. Rhaid i hyn ddigwydd ar lefel strategol a lefel leol, fel bod atebolrwydd ar y cyd.

**Partneriaeth**: Cynnal a chefnogi arbenigedd bioamrywiaeth ac ecosystemau sydd wedi cael eu datblygu ar lefel leol ac ar lefel Cymru. Mae gallu cyfyngedig yn golygu bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddatblygu a gweithredu ar dystiolaeth, a buddsoddi mewn gweithredu priodol yn y mannau cywir. Mae'r dull partneriaeth yn darparu llais unigol ar gyfer y rhai hynny sy'n gweithredu'n lleol. Mae hyn yn ddefnydd effeithiol ac effeithlon o'r arbenigedd cyfyngedig sydd ar gael yng Nghymru.

**Cynnal cyflawni'n lleol:** Ar lefel leol, mae'r CGBLlau a'r CCLlau wedi profi'n fecanwaith llwyddiannus ar gyfer cydlynu tystiolaeth a gweithredu drwy ymgysylltu a thanio brwdfrydedd sectorau gwahanol. Bydd angen parhau i fuddsoddi ar lefel leol. Mae llawer y gellir ei ddysgu o'r dulliau hyn.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Mae grymuso, ehangu a chymell ymglymiad lleol drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd fel cynrychiolwyr busnesau ac awdurdodau iechyd lleol yn her allweddol ac yn gyfle. Gall grwpiau rhanddeiliaid fel amaethyddiaeth a physgota ddod â gwybodaeth leol werthfawr, sy'n cefnogi casglu data a gwybodaeth newydd yn ogystal â syniadau ar sut i ymgysylltu yn eu cymunedau ehangach i gyflawni'r gweithredu. Bydd deall, lle bo'n berthnasol, gwerth economaidd gweithredu dros fioamrywiaeth yn hanfodol i annog mewnbwn gan rai sectorau allweddol ac am ddylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllideb. Mae'n dda gweld bod yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfeiriad at adroddiad Economi Bywyd Gwyllt Cymru[15]. Fodd bynnag, mae bylchau a gellid ystyried targedu neu deilwra'r gwaith asesu economaidd / budd hwn i sectorau neu gynulleidfaoedd penodol.

**Gweithio trawsffiniol:** Ar gyfer rhai rhywogaethau, cynefinoedd a gwasanaethau ecosystemau, bydd cydweithio cryf gyda gwledydd eraill y DU ac Iwerddon yn cryfhau ein gallu i gyflawni buddion. Bydd Llywodraeth Cymru angen ystyried sut y gallwn fwyhau'r cyfleoedd hyn wrth inni ddatblygu deddfwriaeth a pholisïau newydd i Gymru.

**C8. Sut allwn ni rannu cyllidebau ac edrych ar ganlyniadau integredig?**

Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn anelu at sicrhau bod cyllidebau yn cael eu halinio i nodau Llesiant ar gyfer llywodraeth a'i asiantaethau i annog cyflawni canlyniadau integredig ar y cyd. Mae tystiolaeth fel Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol y DU yn dangos fwyfwy bod gweithredu sydd o fudd i fioamrywiaeth o fudd yn ogystal i flaenoriaethau eraill y llywodraeth[16]. Felly, mae gwir gyfle i lywodraeth ddangos sut y gall weithio drwy'r sectorau i sicrhau cyflawni ar y cyd,

[15] Mabis (2001) *'Wildlife Economy Wales': An Economic Evaluation Scoping Study'* – Final Report. Adroddiad a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

[16] UK National Ecosystem Assessment (2011) '*The UK National Ecosystem Assessment Technical report.'* UNEP-WCMC, Caergrawnt

rhannu arbenigedd, staff a chyllidebau. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i fioamrywiaeth a gwerthoedd ecosystemau (nid rhai ariannol yn unig) fod wedi ymwreiddio yn strategaethau/cynlluniau corfforaethol o amrediad o randdeiliaid drwy ddefnyddio nod Lles Cymru Gydnerth fel ysgogiad.

Gall un enghraifft fod yn gydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a Byrddau Iechyd Lleol. Ar hyn o bryd, mae nifer o gynlluniau wedi cael eu treialu'n llwyddiannus i brofi'r defnydd o weithgaredd yn yr awyr agored yn yr amgylchedd naturiol fel ffordd amgen i ragnodiadau confensiynol i gleifion gyda rhai problemau corfforol ac iechyd meddwl. Uchelgais fyddai gweithio tuag at gyllideb ar y cyd rhwng yr adrannau amgylchedd ac iechyd i gyflawni canlyniadau cyffredin a darparu dewis amgen wedi'i gyllido i ragnodi wrth gynnal gofod gwyrdd naturiol yn ogystal. Gellid mabwysiadu dangosyddion cyffredin i gwrdd ag amcanion yn y Cynllun Adfer Natur a'r Strategaeth Iechyd e.e. drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mewn llawer o achosion bydd cydweithio angen cyllid ychwanegol a chynaliadwy er mwyn cefnogi cyd-gyflawni'r canlyniadau. Mae'r broses Cronfa Gyllid wedi arwain 14 o grwpiau cydweithio newydd i ffermwyr a sefydlwyd yn 2014. Mae hyn yn dangos y potensial ar gyfer cyflawni ar lefel y dirwedd mewn ardaloedd lle mae hyn wedi bod yn anodd oherwydd y clytwaith o dir preifat o dan berchnogaeth unigol yng Nghymru. Mae angen i gyllid yn y dyfodol fod yn rhan o raglen dymor hirach i sicrhau buddion hirdymor.

Dylai Llywodraeth fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig tuag at Gyllid Ewropeaidd yn cynnwys LIFE, yn ogystal â darparu cefnogaeth ar gyfer cael mynediad at y cronfeydd strwythurol hyn.

Dylai'r Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau (sydd i'w gwblhau yn Awst 2015) gael ei ddefnyddio fel fframwaith strategol i benderfynu a blaenoriaethu ceisiadau i gronfeydd Ewropeaidd i'r rhwydwaith N2K.

**C9. Beth arall a ddylid ei wneud i osgoi dyblygu a chyflawni ein nodau?**

- Gweithio'n agos gyda Fframwaith Arsylwi Amgylcheddol y Deyrnas Unedig i osgoi dyblygu ymdrech fonitro.
- Gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (RhBC) a'r Rhwydwaith Data a Gwybodaeth Amgylcheddol Forol (RhGDMA) er mwyn osgoi dyblygu offerynnau data, canllawiau a safonau ecolegol.
- Gweithio'n agos gyda CCLlau yng Nghymru er mwyn manteisio ar eu gwaith gyda chofnodwyr lleol a grwpiau cofnodi a'r gwasanaethau rheoli data y maen nhw'n eu cynnig.
- Defnydd cydgysylltiedig a chynhwysfawr o SAWB.
- Cefnogi ac ymgysylltu â phrosiect Bylchau Tystiolaeth PBC.

- Gweithio gyda Chanolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru sy'n gallu darparu tystiolaeth gyfunol, ac adeiladu'r gallu i gyflawni polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Ymgysylltu â CGBLlau, grwpiau rhanbarthol a grwpiau PBC ar lefel Cymru.
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a chyflawni Talu am Wasanaethau Ecosystemau a mecanweithiau eraill.
- Cydlynu a chefnogi datblygu ceisiadau am gyllid Ewropeaidd.
- Cefnogaeth barhaus ar gyfer cydweithio gyda phartneriaid.
- Parhau i ymgysylltu â pherchnogion a rheolwyr tir/dŵr a busnesau eraill yng Nghymru drwy ddefnyddio mecanweithiau a chymhellion amrywiol presennol / newydd.

**C10. Sut gallwn ni ddefnyddio'r Ganolfan Wybodaeth yn y ffordd orau i goladu a lledaenu data a thystiolaeth?**

Mae'r Ganolfan ddata a gwybodaeth yn cynrychioli cyfle gwych i wneud data ecolegol sy'n gysylltiedig â Chymru ar gael i amrediad eang o bobl. Ceir rhai pwyntiau sydd angen eu hystyried er mwyn cael y gorau ohoni, fodd bynnag:

a. Mae angen gwneud cysylltiadau gyda phyrth data sy'n bodoli, yn arbennig felly, Porth RhBC ac Offeryn Mynediad at Ddata'r Canolfannau Cofnodi Lleol. Bydd yn osgoi dyblygu ac mae cyfle yn ogystal i ddefnyddio'r gwasanaethau gwe i gael data i mewn o'r lleoliadau hyn, a'i ddangos drwy'r ganolfan wybodaeth.
b. Ystyried rheoli mynediad a hawliau. Heb system o gymeradwyo mynediad i ardaloedd amrywiol o lawrlwythiad a/neu setiau data, byddwn wedi cael ein cyfyngu i ddata agored, sy'n colli'r cyfle i ddefnyddio'r system i roi mynediad wedi'i reoli gan drwydded at y data. Byddai hyn yn arbed llawer o amser i Cyfoeth Naturiol Cymru a darparwyr data eraill, a byddai'n ddull cyflymach a symlach o gael mynediad at ddata ar gyfer ein cwsmeriaid data.
c. Mae angen i'r Ganolfan fod yn fecanwaith i helpu Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i gwrdd â'u hymrwymiadau o dan Reoliadau INSPIRE.
d. Bydd angen meddwl yn ofalus am safonau a fformatau ar gyfer y Ganolfan er mwyn sicrhau bod y setiau data yn gallu rhyngweithredu. Mae angen hyn fel y gall y wybodaeth ar agweddau amrywiol o'r amgylchedd gael eu cyfuno, eu gweld a holi amdanyn nhw gyda'i gilydd, gan ganiatáu cymryd dull rheoli ar lefel yr ecosystem.

**C11. Sut i gyfathrebu cynnydd wrth gyflawni ein huchelgais yn y modd gorau, er enghraifft, drwy raglen waith tair neu bum mlynedd neu gynllun cyflawni blynyddol?**

Dylai'r cylch adrodd gysylltu â chylchoedd adrodd allweddol eraill. Mae angen i Gymru gyfrannu at adroddiad CAF y DU ac mae angen meddwl yn

ogystal sut y bydd y Cynllun Adfer Natur yn cael ei adrodd drwy'r ASAN a'r ddyletswydd Datblygu Cynaliadwy.

Yn ychwanegol at adrodd ffurfiol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y bydd yn adrodd yn ôl i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Gallai mecanweithiau cyfathrebu presennol gael eu datblygu i gefnogi hyn, e.e. gwefan PBC a datblygu cyfryngau cymdeithasol, adborth gan y CGBLlau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; gwell defnydd o Gynhadledd PBC ac Wythnos Bioamrywiaeth Cymru.

**C12. Rydym wedi codi nifer o gwestiynau penodol. A wnewch chi roi gwybod i ni a ydych yn meddwl bod yna faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, a darparwch wybodaeth bellach os gwelwch yn dda.**

Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach. Fodd bynnag, mae gennym awgrymiadau penodol sy'n ymwneud â'r testun mewn rhannau o'r Cynllun y byddwn yn hapus i'w trafod gydag aelodau tîm Bioamrywiaeth a Chadwraeth Natur Llywodraeth Cymru. Darperir y rhain yn Atodiad 1.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## ATODIAD 2 – Sylwadau penodol ar y testun yn y Cynllun

**Cyffredinol:**
Amrywiaeth: Ceir llawer o gyfeiriadau at bwysigrwydd amrywiaeth. Mae angen cydnabyddiaeth nad yw rhai systemau naturiol yn amrywiol ac maen nhw'r un mor bwysig. Os ydyn nhw'n dod yn fwy amrywiol (yn nhermau rhywogaethau) gallai fod oherwydd eu bod wedi dod yn fwy diraddiedig (cyfoethogi gan lygryddion/RhEG ayyb) - felly yn yr achosion hyn, gall *llai* o amrywiaeth fod yn well adlewyrchiad o ecosystem wydn iach.

**Tudalen 4 paragraff 4 –** Ychwanegwch ddŵr croyw i amgylcheddau tirol a morol os gwelwch yn dda.

**Tudalen 6 –** Ar hyn o bryd, mae'r adran hon yn ddisgrifiad o rai o'r ardaloedd cyfoethog mewn bioamrywiaeth yng Nghymru (neu mae'n esbonio pam mae Cymru yn bwysig i fioamrywiaeth) ac os mai dyma a fwriedir, dylai gynnwys rhai rhywogaethau cynrychiadol e.e. adar coetiroedd gorllewinol (gwybedog brith, telor y coed) britheg y gors, ystlumod pedol lleiaf ayyb. Os mai'r bwriad yw disgrifio tirwedd/morlun Cymru heddiw, yna bydd y paragraff hwn yn edrych yn wahanol iawn ac yn cynnwys cyfeiriad at dirwedd sydd wedi'i ffurfio gan amaethyddiaeth, coedwigaeth, twristiaeth a datblygiadau glo, llechi ac ynni ayyb.
Fel arall, gallwch ddefnyddio'r canfyddiadau allweddol o bennod Cymru o Asesiad Ecosystemau Cenedlaethol (amlinellwyd yn Atodiad 1 o'r ddogfen ymgynghori) neu ddetholiad o'r rhain. Gallai'r uchelgais symud wedyn i esbonio sut y gall bioamrywiaeth ffynnu ochr yn ochr a bod yn rhan o'r diwydiannau a'r datblygiadau ehangach sy'n cynnal economi Cymru, e.e. amaethyddiaeth, pysgodfeydd, twristiaeth, coedwigaeth, cyfleustodau, ynni, adeiladu tai a datblygiadau eraill. Beth bynnag a fwriedir, y neges yw bod angen i deitl yr adran fod yn eglur ac mae angen i'r testun adlewyrchu'r teitl yn fanwl gywir.

**Tudalen 7 - graddfa a chwmpas.** Nid yw peillyddion yn enghraifft dda ar gyfer hyn. Byddai'n well defnyddio enghraifft gwlyptir: mae gwlyptiroedd llai o dan fwy o fygythiad yn eu hymylon gan, e.e. gwrtaith, sychu, goresgyniad gan brysgwydd.

**Tudalen 8 – swyddogaeth ardaloedd gwarchodedig.** Mae'r ffaith y gallan nhw gefnogi rhan yn unig o angen cynefin rhywogaeth hefyd yn bwysig. Ni allwn hysbysu, er enghraifft, holl faes bwydo ystlumod sy'n defnyddio adeilad ar SoDdGA; mae adar ysglyfaethus yr ucheldir angen ffridd neu ardaloedd arfordirol i gefnogi eu bwydo gaeaf. Yn ogystal, mae cynefinoedd mewn ardaloedd gwarchodedig yn gorwedd o fewn y matrics ehangach hwn a chynefinoedd eraill yn y cefn gwlad ehangach.

Mae'r adran hon angen ei chroesgyfeirio gyda'r adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru.

Dywed **Paragraff 1** y *'Dylai'r amrywiaeth gynnal gallu'r ecosystemau i addasu i ba bynnag aflonyddiad sy'n dod i'w rhan'.* Nid yw'r datganiad hwn yn gywir a dylid dileu 'ba bynnag' a'i newid i "aflonyddiad naturiol".

## Atodiad 3 – Amcanion Strategaeth Dystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Yr **8 Amcan** yn **Strategaeth Dystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru** yw:

1. Byddwn yn datblygu ein gallu annibynnol i adrodd ar gyflwr ein hadnoddau naturiol a'r pwysau y maen nhw'n ei wynebu ymhellach (yn cynnwys monitro amgylcheddol statudol).
2. Bydd gennym y dystiolaeth i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau a gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru.
3. Bydd gennym y dystiolaeth sydd ei hangen i ategu'r cyngor ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn cynnwys meysydd posibl ar gyfer datblygu polisi.
4. Byddwn yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi gweithredu'r Dull Rheoli ar lefel yr Ecosystem, Rheoli Adnoddau Naturiol ac Asesiadau Gwasanaethau Ecosystemau.
5. Byddwn yn cynyddu ein gallu mewnol i ddadansoddi a dehongli data a thystiolaeth ehangach yng nghyd-destun anghenion gweithredol a pholisi sy'n newid.
6. Byddwn yn gweithio ar sicrhau'r dystiolaeth sydd ei hangen i atal colli bioamrywiaeth (yn cynnwys cyrraedd targedau CAF a'r UE) ac ar gyfer addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd.
7. Byddwn yn ehangu a datblygu cyfleoedd partneriaeth ar dystiolaeth a cheisio dylanwadu ar agendâu ymchwil eraill.
8. Drwy gynllunio ar gyfer olyniaeth, byddwn yn sicrhau a datblygu sylfaen dystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn nhermau sgiliau'r staff.